**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Diogelu

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 18 Ebrill 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Doyle (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P R Hood-Williams | L James | Y V Jardine (Cofnodion 48-50) |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Ddeddf Llesiant |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Chris Sivers | Cyfarwyddwr Pobl |
| Jo Veck | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice, S J Gallagher, E T Kirchner a/ac G J Tanner

---

## 46 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 47 Cofnodion.

**Nodwyd** cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Diogelu a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2018.

## 48 Gwasanaethau Cydweithio dros Blant. (Adroddiad Drafft i'r Cabinet)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Pobl Adroddiad Drafft y Cabinet ar Gydweithio dros Wasanaethau i Blant. Diben yr adroddiad oedd rhoi'r diweddaraf i'r Cabinet ar gynnydd y pwyllgor o ran ymrwymiad y cyngor i barhau i ddatblygu gwasanaethau sy'n cydweithio dros blant.

Amlinellwyd bod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Diogelu (PDChP), pan gafodd ei sefydlu gyntaf, wedi cytuno ar gynllun gwaith ar gyfer 2017/18. Roedd y cynllun gwaith yn canolbwyntio ar rai meysydd allweddol y cytunwyd arnynt fel ymrwymiadau yn y cyfarfod o'r cyngor a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2017. Ymysg y

rhain oedd ymrwymiad a oedd yn ymwneud â chydlynu gwasanaethau er mwyn cydweithio dros blant fel a ganlyn:

> *Byddwn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc wedi'u cynnwys yng ngwaith y cyngor i lunio polisïau a gwneud penderfyniadau ac yr ymgynghorir â hwy mewn perthynas â hyn i sicrhau y clywir eu lleisiau a'u barn. Byddwn yn hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn er mwyn rhoi llais i blant.*

Ers yr adeg honno, roedd y PDChP wedi archwilio nifer o feysydd a gwasanaethau a oedd yn cefnogi'r uchelgais hon ac roedd yn ystyried ffyrdd o ddatblygu'r agenda polisïau ymhellach.

Roedd yr adroddiad yn darparu manylion gwaith y pwyllgor yn 2017/18 a'r cynnydd o ran yr amcanion a geir yn y Cynllun Hawliau Plant.

Trafododd y pwyllgor yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad a chytunwyd ar y casgliadau canlynol: -

'Ar y cyfan, rydym yn fodlon bod y polisïau presennol sy'n cael eu mabwysiadu gan y cyngor, drwy weithio gydag asiantaethau eraill, yn cyflawni canlyniadau da i blant a phobl ifanc. Ar ôl gwneud ymdrech sylweddol i gydweithio'n fwy dros bobl ifanc yn y blynyddoedd diweddar yn ein gwasanaethau ein hunain, mae heriau cynyddol wedi dod i'r amlwg yn y ffordd rydym yn cyfuno gwasanaethau â sefydliadau eraill. Er mwyn cyflwyno newid pellach fesul cam yn ein ffocws ar blant, mae'r pwyllgor wedi ystyried pa mor gydlynol y mae gwasanaethau'r cyngor o ran cydweithio dros blant a phobl ifanc, ac mae'n awgrymu efallai bydd y Cabinet yn dymuno ystyried cyflymdra a maint y newid ymysg partneriaethau ehangach, ac yn ystyried argymell yr eitem hon i raglen waith y pwyllgor yn y flwyddyn ddinesig newydd.

**Penderfynwyd:** -

1) Cymeradwyo'r adroddiad diwygiedig;
2) Cylchredeg yr adroddiad diwygiedig i'r pwyllgor;
3) Anfon yr adroddiad ymlaen at y Cabinet er mwyn iddo nodi adborth y pwyllgor.

## 49 Polisi Diogelu Corfforaethol.

Cyflwynodd Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Bolisi drafft Corfforaethol Diogelu Plant ac Oedolion Cyngor Abertawe.

Amlinellwyd, yn dilyn trafodaethau yn y cyfarfod blaenorol, fod y polisi wedi'i ddiweddaru ac yr adroddwyd amdano i'w gymeradwyo. Ychwanegwyd bod y polisi'n manylu diffiniad yr awdurdod o ddiogelu. Cyfeiriwyd yn benodol at Atodiad 3a - Diogelu Plant a Phobl Ifanc ac Atodiad 3b - Diogelu Oedolion Diamddiffyn, yr oedd y ddau ohonynt yn amlinellu'r broses adrodd i'w dilyn.

Tynnwyd sylw hefyd at y meysydd canlynol yn y ddogfen: -

1) Llywodraethu diogel
2) Cyflogaeth ddiogel
3) Gweithlu diogel
4) Arfer diogel
5) Partneriaethau diogel
6) Llais diogel
7) Yr hyn y mae angen i Gyngor Abertawe ei gyflawni

Ailadroddodd Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y term 'diogelu' yn mynd y tu hwnt i adrodd.  Ychwanegodd fod dulliau adrodd symlach yn cefnogi trefniad diogelu mwy effeithiol ac yn darparu enghreifftiau o sut roedd hyfforddi staff yn well wedi gwella diogelu a hyrwyddo cyfrifoldeb ehangach.

Dywedodd hefyd y byddai'r Grŵp Diogelu Corfforaethol yn goruchwylio'r polisi ar ôl i Aelod y Cabinet ei gymeradwyo.

Trafododd y pwyllgor y manylion a gynhwyswyd yn y polisi wedi'i ddiweddaru.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Polisi Diogelu Corfforaethol a'i anfon at Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles.

## 50 Cynllun Gwaith 2017-2018.

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2017-2018.

Nododd mai'r pwyllgor fyddai'n penderfynu ar ei gynllun gwaith yn y flwyddyn ddinesig nesaf.

Diolchodd hefyd i'r pwyllgor am ei waith yn ystod y flwyddyn gyfredol.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.50 pm

**Cadeirydd**